**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
A GYNHALIWYD AR 05 AWST 2020**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes); Mrs Cath Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 14:00

**Ymddiheuriadau:**

Ddim yn berthnasol.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganwyd buddiant gan David Powell a Julie May, fel trigolion Caerdydd.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu cynnal cyfarfodydd un-i-un gydag aelodau'r staff.

2.2. Dywedodd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni ei fod wrthi'n cynnal cyfarfodydd un-i-un gyda'r Swyddogion Arolygon ar hyn o bryd.

2.3. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y dogfennau Rhyddid Gwybodaeth, ar gyfer Sir Fynwy, wedi'i hanfon at y Cynghorydd Armand Watts, yn unol â'r cais. Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes fod yr holl gyfathrebiadau wedi'u hanfon.

2.4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad yn ymwneud â chyfarfod a gafodd gyda Lisa, yn Llywodraeth Cymru, a dywedodd y cafwyd canlyniad boddhaol i hyn.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar nifer o fân ddiwygiadau.

## 4. Materion yn Codi

4.1. **(Mater 1) Cytundeb Fframwaith.** Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad. Elaina, yn Llywodraeth Cymru, i fynd ar drywydd hyn gydag Amy Edwards yn Llywodraeth Cymru, fel blaenoriaeth. Bydd Amy Edwards yn cysylltu â'r Rheolwr Cyllid i drefnu'r cyfarfod swyddogion nesaf. Ychwanegodd y Prif Weithredwr na chafwyd ymateb gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus.

4.2. **(Mater 2) Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd.** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oes angen unrhyw wybodaeth bellach gan CFfDLC ar Bwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd.

4.3. **(Mater 3) Ffeiliau Adnoddau Dynol.** Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes bod y gwaith o gysoni'r ffeiliau Adnoddau Dynol wedi'i gwblhau.

4.4. **(Mater 4) Nodiadau wedi'u hail-fewnosod. Gweithredu -** Y Prif Weithredwr i gysylltu â'r Rheolwr Cyllid ynglŷn â nodiadau cyflog Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi'u hail-fewnosod.

## 5. Arolwg Etholiadol Caerdydd – Opsiynau Terfynol

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 1, sef Adamsdown, Cathays, Gabalfa, Plasnewydd a Glan yr Afon, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y pum ward etholiadol Adamsdown, Cathays, Gabalfa, Plasnewydd a Glan yr Afon.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw'r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau aml-aelod newydd yn yr ardal.
- Mae'n cadw'r ddwy ward etholiadol bresennol â phedwar aelod yn y rhanbarth.
- Ni ragamcenir y bydd gan yr un o'r wardiau lefel amrywiant etholiadol sydd yn +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bymtheg o aelodau, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

5.3. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Adamsdown | Adamsdown |
| Cathays | Cathays |
| Gabalfa | Gabalfa |
| Plasnewydd | Plasnewydd |
| Riverside | Glan yr Afon |

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 2, sef Cyncoed, Llanrhymni, Pentwyn, Penylan, Pontprennau, Tredelerch a Trowbridge, a chytunodd ar **opsiwn 4.**

5.5. Datblygwyd **opsiwn 4** yn ystod y cyfarfod wrth ystyried opsiynau amgen ar gyfer y Rhanbarth. Cynigiodd y Comisiwn gyfuno ward etholiadol Llanrhymni gyda Chymuned Pentref Llaneirwg i ffurfio ward etholiadol â thri aelod. Hefyd, argymhellodd y Comisiwn bod Cymuned Pontprennau yn ffurfio ward etholiadol â dau aelod. Arweiniodd yr argymhellion hyn at lefelau amrywiant etholiadol gwell a chreu ffiniau a fyddai'n adeiladu ar gysylltiadau presennol o fewn y Rhanbarth. Roedd y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn cynnig cyfuno Cymuned Pontprennau gyda ward etholiadol Pentwyn, fodd bynnag, roedd y Comisiwn yn fodlon y byddai Pontprennau, yn cael ei chynrychioli gan ddau aelod, yn darparu gwelliant i'r amrywiant cyffredinol yn y Rhanbarth.

5.6. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys saith ward etholiadol Cyncoed, Llanrhymni a Phentref Llaneirwg, Pentwyn, Penylan, Pontprennau, Tredelerch a Trowbridge.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw pedair o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliannau i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn parhau ar +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bedwar ar bymtheg o aelodau, sef gostyngiad o un o'r aelodaeth bresennol.**

5.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Cyncoed | Cyncoed |
| Llanrumney and Old St Mellons | Llanrhymni a Phentref Llaneirwg |
| Pentwyn | Pentwyn |
| Penylan | Penylan |
| Pontprennau | Pontprennau |
| Rumney | Tredelerch |
| Trowbridge | Trowbridge |

5.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 3, sef Creigiau a Sain Ffagan, Pentyrch a Radur a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Radur, a Phentyrch a Sain Ffagan.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn parhau ar +/-25% o'r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bum aelod, sef cynnydd o ddau o'r aelodaeth bresennol.**

5.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Pentyrch and St Fagans | Pentyrch a Sain Ffagan |
| Radyr | Radur |

5.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 4, sef Y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn

hwn yn cynnwys pum ward etholiadol Y Mynydd Bychan, Llys-faen a’r Ddraenen, Llanisien, Rhiwbeina, a’r Eglwys Newydd a Thongwynlais.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n cadw tair o’r wardiau etholiadol presennol.
- Mae’n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw’n creu cymunedau wedi’u rhannu.
- Nid yw’r un o’r wardiau yn cadw lefel amrywiant sydd yn fwy na +/-25% o’r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bymtheg o aelodau, yr un fath â’r aelodaeth bresennol.**

5.11. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Heath | Y Mynydd Bychan |
| Lisvane and Thornhill | Llys-faen a’r Ddraenen |
| Llanishien | Llanisien |
| Rhiwbina | Rhiwbeina |
| Whitchurch and Tongwynlais | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais |

5.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 5, sef Butetown, Grangetown a’r Sblot a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys y tair ward etholiadol Butetown, Grangetown a’r Sblot.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n cadw un o’r wardiau etholiadol presennol.
- Mae’n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw’n creu cymunedau wedi’u rhannu.
- Ni fydd yr un o’r wardiau yn parhau ar fwy na +/- 25% o’r cyfartaledd sirol arfaethedig.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o ddeg aelod, sef cynnydd o dri o’r aelodaeth bresennol.**

5.13. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Butetown | Butetown |
| Grangetown | Grangetown |
| Splott | Y Sblot |

## 6. Arolwg Etholiadol Caerffili – Opsiynau Terfynol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 16 Gorffennaf 2020 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 1, sef Cwm Aber, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys yr un ward etholiadol, sef Cwm Aber.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n cadw’r wardiau etholiadol presennol.
- Nid yw’n creu cymunedau wedi’u rhannu.
- Mae’n darparu cydraddoldeb etholiadol derbyniol.
- Nid oes unrhyw wardiau’n uwch na’r amrywiant etholiadol +/-25% o’r cyfartaledd sirol.
- Mae’n cydymffurfio â’r rhan fwyaf o gynrychiolaethau a dderbyniwyd gennym.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri aelod, yr un fath â’r aelodaeth bresennol.**

6.3. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Aber Valley | Cwm Aber |

6.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 2, sef Aberbargoed, Bargoed, Coed-duon, Cefn Fforest, Gilfach a Phengam a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y pedair ward etholiadol Aberbargoed a Bargoed, Coed-duon, Cefn Fforest a Phengam, a Gilfach.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu amrywiannau derbyniol.
- Dim cymunedau wedi'u rhannu.
- Mae'n creu dwy ward aml-aelod yn llai na'r rheiny sy'n bodoli eisoes (pump ar hyn o bryd).
- Mae'n cydymffurfio â mwyafrif o gynrychiolaethau a dderbyniwyd gennym.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o ddeg aelod, sef gostyngiad o ddau o'r aelodaeth bresennol.**

6.5. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Aberbargoed and Bargoed | Aberbargoed a Bargoed |
| Blackwood | Coed-duon |
| Cefn Fforest and Pengam | Cefn Fforest a Phengam |
| Gilfach | Gilfach |

6.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 3, sef Crosskeys, Pen-maen, Pontllanfraith ac Ynys-ddu, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y tair ward etholiadol Crosskeys ac Ynys-ddu, Pen-maen a Phontllanfraith.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o wyth aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

6.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Crosskeys and Ynysddu | Crosskeys ac Ynys-ddu |
| Penmaen | Pen-maen |
| Pontllanfraith | Pontllanfraith |

6.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 4, sef Cwm Darran, Tredegar Newydd, Twyncarno, Moriah a Pontlotyn, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Cwm Darran, Moriah a Pontlotyn, Tredegar Newydd a Thwyn Carno.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.
- Mae'n darparu ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod.
- Fe'i cefnogir gan yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o chwe aelod, sef gostyngiad o un o'r aelodaeth bresennol.**

6.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Darran Valley | Cwm Darran |
| Moriah and Pontlottyn | Moriah a Phontlotyn |
| New Tredegar | Tredegar Newydd |
| Twyn Carno | Twyncarno |

6.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 5, sef Hengoed, Sant Cattwg, Llanbradach ac Ystrad

Mynach a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Hengoed, Llanbradach, Sant Cattwg ac Ystrad Mynach.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o naw aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

6.11. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Hengoed | Hengoed |
| Llanbradach | Llanbradach |
| St Cattwg | Sant Cattwg |
| Ystrad Mynach | Ystrad Mynach |

6.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 6, sef Bedwas, Trethomas a Machen, St James, Morgan Jones a Sant Martin, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y pum ward etholiadol Bedwas a Threthomas, Machen a Rhydri, Morgan Jones, Sant Martin ac Y Fan.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu'r trefniant gorau ar gyfer yr ardal.
- Mae'n darparu ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod.
- Fe'i cefnogir gan yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri ar ddeg aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

6.13. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Bedwas and Trethomas | Bedwas a Threthomas |
| Machen and Rudry | Machen a Rhydri |
| Morgan Jones | Morgan Jones |
| St Martins | Sant Martin |
| Van | Y Fan |

## 7. Arolwg Etholiadol Wrecsam – Opsiynau Terfynol

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Gorffennaf 2020 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 1, sef Llai a'r Orsedd, a **chytunodd ar opsiwn 3.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y ddwy ward etholiadol Llai a'r Orsedd.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Er bod Yr Orsedd yn parhau dros 25% o amrywiant, mae hyn yn gwella ei hun erbyn 2023 (ar sail y data rhagamcanol sydd ar gael).
- Mae'n osgoi creu ward â thri aelod mewn ardal wledig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bedwar aelod, sef cynnydd o un o'r aelodaeth bresennol.**

7.3. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Rossett | Yr Orsedd |
| Llay | Llai |

7.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 2, sef Cefn, Llangollen Wledig, Pen-y-cae, Pen-y-cae a De Rhiwabon, Plas Madog a Rhiwabon, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r

opsiwn hwn yn cynnwys y saith ward etholiadol Gogledd Acre-fair, Dwyrain Cefn, Gorllewin Cefn, Llangollen Wledig, Pen-y-cae, Pen-y-cae a De Rhiwabon a Rhiwabon.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw pedair o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o saith aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

7.5. Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Acrefair North | Gogledd Acre-fair |
| Cefn East | Dwyrain Cefn |
| Cefn West | Gorllewin Cefn |
| Llangollen Rural | Llangollen Rural |
| Penycae | Pen-y-cae |
| Penycae and Ruabon South | Pen-y-cae a De Rhiwabon |
| Ruabon | Rhiwabon |

7.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 3, sef Brymbo, Esclusham, Johnstown, Mwynglawdd, Pant, Ponciau, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y chwe ward etholiadol Brymbo, Esclusham, Pant a Johnstown, Mwynglawdd, Ponciau a Rhos.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.

- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o wyth aelod, sef cynnydd o un o'r aelodaeth bresennol.**

7.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Brymbo | Brymbo |
| Esclusham | Esclusham |
| Pant and Johnstown | Pant a Johnstown |
| Minera | Y Mwynglawdd |
| Ponciau | Ponciau |
| Rhos | Rhos |

7.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 4, sef Bryn Cefn, Gwenfro, Gogledd Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt, Dwyrain a De Gwersyllt, a New Broughton, a **chytunodd ar opsiwn 2.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y saith ward etholiadol Bryn Cefn, Gwenfro, Gogledd Ddwyrain Gwersyllt, Gogledd Orllewin Gwersyllt, De Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt a New Broughton.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n creu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Mae'n creu wardiau un aelod yn unig.
- Mae'r amrywiant yn gwella ei hun erbyn 2023 (ar sail y data rhagamcanol sydd ar gael).

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o saith aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

7.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Bryn Cefn | Bryn Cefn |
| Gwenfro | Gwenfro |
| Gwersyllt North | Gogledd Gwersyllt |
| Gwersyllt East | Dwyrain Gwersyllt |
| Gwersyllt South | De Gwersyllt |
| Gwersyllt West | Gorllewin Gwersyllt |
| New Broughton | New Broughton |

7.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 5, sef Cartrefle, Dwyrain a Gorllewin Gresford, Holt, Queensway, Smithfield a Whitegate, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y saith ward etholiadol Cartrefle, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, Holt, Queensway, Smithfield, Whitegate a Wynnstay.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw tair o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o saith aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

7.11. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Cartrefle | Cartrefle |
| Gresford East and West | Dwyrain a Gorllewin Gresford |
| Holt | Holt |

| | |
|---|---|
| Queensway | Queensway |
| Smithfield | Smithfield |
| Whitegate | Whitegate |
| Wynnstay | Wynnstay |

7.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 6, sef Brynyffynnon, Erddig, Hermitage ac Offa a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y pedair ward etholiadol Brynyffynnon, Erddig, Hermitage ac Offa.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o bedwar aelod, yr un fath â'r aelodaeth bresennol.**

7.13. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Brynffynnon | Brynffynnon |
| Erddig | Erddig |
| Hermitage | Hermitage |
| Offa | Offa |

7.14. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 7, sef Bronington ac Overton, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y tair ward etholiadol Bangor Is-y-Coed, Bronington a Hanmer, ac Overton a De Maelor.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.

- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o dri aelod, sef cynnydd o un o'r aelodaeth bresennol.**

7.15. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bangor Is-y-Coed | Bangor Is-y-Coed |
| Bronington and Hanmer | Bronington a Hanmer |
| Overton and Maelor South | Overton a De Maelor |

7.16. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol ar gyfer Rhanbarth 8, sef Acton, Borras Park, Maes-y-dre, Little Acton a Rhosnesni, a **chytunodd ar opsiwn 1.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys y pedair ward etholiadol Acton a Maes-y-dre, Borras Park, Little Acton a Rhosnesni.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau presennol.
- Mae'n darparu gwelliant sylweddol i gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu cymunedau wedi'u rhannu.
- Nid yw'r un o'r wardiau yn uwch nag amrywiant etholiadol o +/-25% o'r cyfartaledd sirol.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o chwe aelod, sef cynnydd o un o'r aelodaeth bresennol.**

7.17. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Acton and Maesydre | Gwaunyterfyn a Maes-y-dre |
| Borras Park | Borras Park |
| Little Acton | Little Acton |
| Rhosnesni | Rhosnesni |

## 8. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 27 Gorffennaf gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** ei gynnwys.

8.2. **Nodwyd** y byddai cyfarfod Prif Weithredwr Casnewydd yn cael ei gynnal ar-lein ar 10 Awst ac y bydd yr adroddiad Terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 14 Awst.

8.3. **Nodwyd** y byddai cyfarfod Prif Weithredwr Castell-nedd Port Talbot yn cael ei gynnal ar-lein ar 19 Awst ac y bydd yr adroddiad Terfynol yn cael ei gyhoeddi ar 20 Awst.

8.4. **Nodwyd** y bydd yr adroddiadau Terfynol ar gyfer Caerdydd, Caerffili a Wrecsam yn cael eu rhoi gerbron Cyfarfod y Comisiwn ym mis Medi ac y caiff ei gyhoeddi cyn mis Tachwedd fwy na thebyg.

8.5. **Nodwyd** y bydd cyfnod ymgynghori Drafft Ynys Môn yn dod i ben ar 14 Medi a bod ymgynghoriad Cychwynnol Sir Fynwy yn dod i ben ar 28 Medi. Mae cyfarfodydd ymgynghori ar gyfer y ddwy ardal yn cael eu trefnu.

8.6. **Nodwyd** y bydd cyfnod ymgynghori Drafft Bro Morgannwg yn ailddechrau ar 1 Medi ac yn dod i ben ar 20 Hydref 2020.

8.7. **Nodwyd** y bydd y Comisiynwyr yn cyfrannu at yr Adroddiad 'Gwersi a Ddysgwyd'.

## 9. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Gorffennaf 2020 gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** ei gynnwys.

9.2. **Nodwyd** bod y newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf mewn perthynas â chamau lliniaru ar gyfer risg CR3 wedi'u rhoi ar waith, a bod y gyfradd disg wedi'i lleihau i 12.

9.3. Nid oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Gofrestr Risg.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Gorffennaf 2020 gan y Rheolwr Cyllid, a **nodwyd** ei gynnwys.

10.2. **Nodwyd**, erbyn diwedd mis Mehefin, bod y tanwariant wedi codi i £35,000.

Fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai'r tanwariant hwn yn lleihau'n sylweddol yn y misoedd i ddod yn sgil amcangyfrif gwariant yn y dyfodol ar ofynion TGCh y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## 11. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol

11.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y trefniadau cyfredol.

11.2. **Nodwyd** bod y swyddfa'n gweithredu ar sail rota a'i bod ar gau ar ddydd Gwener. Mae cyflenwad da o fasgiau a hylif gochi dwylo gwrthfacterol yn y swyddfa, a cheir trefniadau cadw pellter cymdeithasol mewn cyfarfodydd, gan ddarparu ciniawau unigol i'r Comisiynwyr.

11.3. **Cytunwyd** i barhau i weithio fel hyn am nawr, ac na ddylai fod unrhyw bwysau ar staff i weithio yn y swyddfa yn lle gweithio gartref.

## 12. Calendr Digwyddiadau

12.1. Symudwyd cyfarfod 15 Medi i 1pm ar 1 Medi.

## 13. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

13.1. Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.

## 14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 01 Medi 2020